



Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

CairWear


Larwm Personol Haptig

Canllaw
Rhaglennu V 1.0



Mae'r CairWear yn Larwm Personol Haptig cain. Gellir ei wisgo'n gyfforddus ar yr arddwrn neu o amgylch y gwddf, gan ganiatáu i unigolion symud o gwmpas eu cartref gyda hyder, gan wybod bod help bob amser ar gael mewn argyfwng.

Hawdd i'w ffurfweddu, gellir cyflenwi'r CairWear gydag amrywiaeth o brotocolau radio. Mae defnyddwyr yn elwa o adborth haptig drwy'r dirgryniadau adeiledig, yn ogystal ag adborth gweledol o LED guddiedig. Mae'r uned yn cynnwys batri y gellir ei newid ac yn ddiddos i safon IP67, gan sicrhau dibynadwyedd tymor hir hyd yn oed mewn amgylcheddau heriol.



Gweithrediad

Mae'r CairWear yn bendant main a modern, wedi'i gynllunio i'w wisgo'n gyfforddus ar yr arddwrn neu o amgylch y gwddf. Mae'n rhoi tawelwch meddwl i ddefnyddwyr drwy eu galluogi i alw am gymorth yn hawdd gyda gwasg botwm. Mae gan y ddyfais adborth haptig, sydd yn sicrhau bod defnyddwyr yn derbyn cadarnhad clir bod eu galwad am gymorth wedi'i actifadu'n llwyddiannus. I'r rhai sydd ag heriau medrusrwydd llaw, mae addasydd hawdd i'w bwyso ar gael i wneud gweithrediad hyd yn oed yn haws. Wedi'i adeiladu i wrthsefyll gwisgo bob dydd, mae'r CairWear yn wydn i ddŵr i safon IP67 ac yn cynnwys batri y gellir ei newid.

Opsiynau Gwisgo

Gellir gwisgo'r CairWear mewn dwy ffordd – ar yr arddwrn neu o amgylch y gwddf. Os yw'r cord gwddf i'w ddefnyddio, edafu ben y ddolen fach ar ddiwedd y cord trwy un o'r agoriadau dynodedig ar ddyfais CairWear. Tynnwch weddill y cord trwy'r ddolen fach i'w sicrhau. Unwaith wedi'i gysylltu, mae'r ddyfais yn barod i'w gwisgo o amgylch y gwddf. Os mai'r strap arddwrn sydd eu hangen, tynnwch y cord gwddf yn gyntaf. Yna, edafu'r strap trwy'r ddau agoriad ar y ddyfais. Unwaith wedi'i sicrhau, mae'r ddyfais yn barod i'w gwisgo ar arddwrn y defnyddiwr. Os yw'r addasydd hawdd i'w bwyso yn ofynnol, estynnwch y siaced a'i osod yn ddiogel dros y ddyfais. Unwaith wedi'i leoli, gellir gwisgo'r ddyfais o amgylch y gwddf neu ar yr arddwrn, yn dibynnu ar ddewis y defnyddiwr.

Troi'r CairWear ymlaen

I droi'r ddyfais ymlaen, gwasgwch y botwm bach (botwm 2) unwaith. Bydd y LED yn fflachio'n goch, yn wyrdd, ac yna'n oren i ddangos bod yr uned bellach ymlaen ac yn barod i'w defnyddio.

Defnyddio'r CairWear

I actifadu galwad am gymorth, sicrhewch fod y ddyfais CairWear wedi'i phweru ymlaen. Gwasgwch y botwm mawr (botwm 1) unwaith i anfon signal radio. Bydd y ddyfais yn darparu adborth dirgryniad a LED i gadarnhau bod y galwad wedi'i chodi. Bydd LED wyrdd yn nodi bod y batri yn dda a bydd LED goch yn nodi bod y batri yn isel. **Nodwch:** gellir analluogi'r adborth haptig (dirgryniad), gweler isod. Gellir hefyd cynnal gwiriad batri trwy wasgu'r botwm bach pan fo'r ddyfais wedi'i throi ymlaen. Wrth ei wasgu unwaith, bydd y LED yn dangos gwyrdd os yw'r batri'n dda neu goch os yw'r batri'n wan.

Diffodd y CairWear

I ddiffodd y ddyfais CairWear, gwasgwch a dal y botwm bach nes bod y LED yn diffodd (gwyrdd ar gyfer batri arferol, coch os yw'r batri'n isel). **Heb ryddhau'r botwm bach**, gwasgwch a dal y botwm mawr nes bod y LED oren yn stopio fflachio. Mae'r ddyfais bellach wedi'i diffodd.

Galluogi/Analluogi adborth haptig (dirgryniad) ar CairWear

I analluogi adborth haptig (dirgryniad) ar y ddyfais CairWear yn ystod cychwyn, gwasgwch y botwm bach ddwywaith yn gyflym. Bydd y ddyfais yn fflachio'n goch, yn wyrdd, yn oren, ac yna'n goch i ddangos bod yr adborth haptig wedi'i analluogi. I gadarnhau, gwasgwch y botwm mawr. Bydd y ddyfais yn fflachio'n wyrdd sawl gwaith ond ni fydd yn dirgrynu. I ail-alluogi adborth haptig, diffoddwch y ddyfais a dilynwch y cyfarwyddiadau yn 'Troi'r CairWear ymlaen' uchod. I gadarnhau bod adborth haptig wedi'i ail-alluogi, gwasgwch y botwm mawr. Bydd y ddyfais yn fflachio ac yn dirgrynu.

Cysylltu'r CairWear i'r Notifier neu System Dderbyn Arall

1. Sicrhewch fod yr CairWear ymlaen.
2. Paratowch y Notifier/system arall drwy fynd i mewn i fodd cofrestru.
3. Actifadu'r CairWear drwy bwyso'r botwm mawr.
4. Dylai'r Notifier/system arall cydnabod y ddyfais newydd.

Manylebau

Cydnawsedd	Amrywiol
Amledd Gweithredu	868 / 869 / 917 MHz
Maint	H44mm x L135mm x D11mm
Batri y ellir eu newid	CR2032 Cell Geiniog
Bywyd Batri	Hyd at 5 mlynedd
Batri Isel Auto	Profi batri bob dydd (dibynnu ar y protocol)
Opsiynau Gwisgo	Arddwrn a gwddf
Pellter Gweithio	Yn dibynnu ar y system dderbyn a’r amgylchedd gweithredol
Diddos	Safon IP67
Tymheredd Gweithredu	-10°C i +55°C
Cydymffurfio	CE / UKCA / RoHS 2 / RED / FCC
Gwarant	24 mis

Newid Batri

O dan ddefnydd arferol, dylai’r batri bara hyd at 5 mlynedd. Defnyddiwch un batri CR2032 i sicrhau’r oes batri fwyaf posibl, wedi’i brynu’n uniongyrchol gan Cair. Cyn dechrau, nodwch sut mae’r defnyddiwr yn gwisgo’r CairWear fel y gellir ailgynnull y casin yn y cyfeiriad cywir.

Gosodwch y ddyfais fel bod y cefn yn wynebu tuag atoch. Gan ddefnyddio sgriwdreifer bach pen Phillips, llaciwch y pedwar sgriw ar y cefn; gellir eu gadael yn eu lle. Daliwch y casin cefn yn ofalus a’i godi oddi wrth y casin blaen i’w gwahanu. Rhowch y casin cefn i’r ochr gyda’r strap yn wynebu i fyny.

Nawr, gwthiwch y batri’n ysgafn allan o’i adran. Gyda’r adran fatri yn wynebu tuag atoch, mewnosodwch y batri newydd gyda’r ochr positif (+) yn wynebu tuag atoch. Bydd y goleuadau LED yn fflachio’n goch, yn wyrdd, ac yna’n oren i gadarnhau bod y batri wedi’i fewnosod yn gywir.

Ail-gydosodwch y ddyfais a’i sicrhau drwy dynhau'r pedwar sgriw. Yna, profwch y CairWear+ i sicrhau ei bod yn gweithredu'n gywir.
Pwysig: Mae newid y batri mewn dyfais dal dŵr yn gofyn am gywirdeb a gofal. Rhaid tynhau'r sgriwiau cadw digon i gynnal y sêl ddiddŵr, ond heb eu gordynhau, gan y gall hyn niweidio'r ffitiadau neu'r derbynyddion paru a pheryglu gwrthiant dŵr y ddyfais.

Gwrio’r Protocol

I wirio’r protocol ar y ddyfais CairWear, sicrhewch fod y ddyfais wedi’i phweru ymlaen, yna gwasgwch y botwm mawn unwaith. Mae nifer y fflachiadau LED yn dangos y protocol sydd wedi’i ffurfweddu (gwyrdd = batri da, coch = batri isel).

- 3 fflach – Tunstall
- 2 fflach – TeleAlarm
- 8 fflach – VB
- 5 fflach – Chubb

Pacio

Mi ddylai offer sy’n cynnwys celloedd neu fatris cael ei phacio mewn pecyn cryf, anhyblyg a rhoi yn i le yn ofalus i sicrhau dim symudiad o fewn y pecyn i osgoi actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin, heb law i newid y batri.

Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â’r ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd. Cysylltwch â’ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

Datganiad Cydymffurfiaeth

Trwy hyn, mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, CairWear yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU

